AM DDIM

Cyfnodolyn yr Eglwys Fethodistaidd

Rhifyn 241  Ebrill – Mai 2023

# Gwyliedydd



# O'R GADAIR AR Y GOROR

gan y Parchedig **Jennifer Hurd**



"Gwnewch hyn er cof amdanaf."
(Luc 22: 19c)

Yn ystod cyfnod y rhifyn hwn o'r Gwyliedydd, mae eglwys Iesu Grist yn symud o dymor y Grawys a'r Wythnos Fawr i dymor y Pasg ac wedyn i dymor y Dyrchafael a'r Pentecost. Mae'n lot i feddwl amdano! Ar y 6ed o Ebrill mae'n Ddydd Iau Cablyd, pan fyddwn yn cofio am Iesu'n rhoi rhodd ei Swper Olaf i'w ddisgyblion ar y nos cyn iddo farw ar y groes ar Ddydd Gwener y Groglith. Ers hynny, mae Cristnogion wedi rhannu bara a gwin (neu beth bynnag oedd ar gael iddynt) er cof nid yn unig am ei farwolaeth ond yn arbennig am ei atgyfodiad a'i bresenoldeb parhaus gyda ni. Gwnawn hyn er cof amdano.

O ddiwedd mis Rhagfyr tan wythnos gyntaf mis Chwefror eleni, cefais gyfnod o seibiant, yn ôl cyngor doeth tîm fy 'MDR' yr haf diwethaf (https://www.methodist.org.uk/for-churches/ministries/ministerial-development-review/). Roedd yn gyfle i fyfyrio ar fy mywyd a'm gweinidogaeth, i orffwyso ac i ganolbwyntio ar fy mherthynas â Duw yng Nghrist. Rwy'n ddiolchgar i'r Eglwys Fethodistaidd am yr amser, ac roedd yn fendith rwyf wir yn gobeithio ei thalu yn ôl i'r Synod. Yn ystod y cyfnod, cefais gyfle i fynychu pedwar gwasanaeth Cymun Sanctaidd gwahanol iawn, a buaswn yn hoffi rhannu'r profiad dipyn bach, wrth i ni gofio am Iesu'n dweud, "Gwnewch hyn er cof amdanaf."

Roedd yr un cyntaf yng nghapel Canolfan Ysbrydolrwydd Jeswit Beuno Sant yn Nhremeirchion yn ystod encil ddistaw yn para chwe diwrnod. Offeren yr Eglwys Gatholig oedd y gwasanaeth, wrth gwrs, ond roedd pobl o nifer o enwadau yn bresennol. Mae'r capel yn draddodiadol, yn syml ac yn hardd; roedd y litwrgi a'r gweddïau yn syml ac yn hardd, a'r offeiriad yn ddoeth, yn fwyn ac yn raslon. Rwy'n trysori geiriau'r bregeth, ond mwy na hynny, rwy'n trysori'r teimlad o agosrwydd at Dduw a'i bobl, beth bynnag ein cefndir a'n tueddiadau. Yn y "dwys ddistawrwydd" (CFf 781) bron cymaint ag yn y bara a'r gwin, roedd Duw yng Nghrist yn agos atom, trwy nerth ei Ysbryd.

Roedd yr ail wasanaeth mewn neuadd gyfarfod yng Nghanolfan Gynadledda The Hayes yn Swanwick yn ystod digwyddiad tridiau ar gyfer gweinidogion sydd wedi bod yn gwasanaethu yn yr Eglwys Fethodistaidd am 28-30 o flynyddoedd. (Roedd 'na lot o wallt llwyd yn yr ystafell!) Gorffennodd y digwyddiad gyda gwasanaeth Cymun Sanctaidd a oedd mor wahanol i'r un yn 'Beuno's', ac eto yr un sacrament. Roedd pawb mewn cylch o gwmpas y bwrdd, ac ni wnaeth y gweinidog o'r tîm arweinyddiaeth a oedd yn gweinyddu ddefnyddio llyfr o gwbl: daeth ei eiriau i gyd o'r frest ac o'i gof, yn anffurfiol ac yn gyffrous, ond gyda chymaint o barch a theimlad a chynhesrwydd. Efallai y byddai rhai wedi ystyried y gwasanaeth yn un blêr, gyda phawb yn dod ymlaen i dderbyn y bara a'r gwin yn eu hamser eu hunain, ond doedd o ddim. Roedd y teimlad o gymdeithas a chyfeillgarwch yng Nghrist yn gryf.

Roedd y trydydd ar Ynys Sanctaidd Lindisfarne, lle roeddwn i ar encil anghyfannedd am bum diwrnod. Roeddwn i wir yn ysu i fynychu gwasanaeth Cymun Sanctaidd, ond dim ond Hwyrol Weddi oedd yn yr eglwys yn ystod yr wythnos. A finnau'n mynd am dro ar fy more olaf ond un, gan fynegi fy siom wrth Dduw mewn gweddi dawel, gwelais groes a charegl a phaten ar gerrig wrth ymyl y llwybr. Dyna syndod! Dywedais wrth ferch ar fainc gyfagos, "Are you anything to do with this?" ac wrth gwrs, mi roedd hi. Roedd hi'n offeiriad Anglicanaidd yn disgwyl am ei grŵp a oedd ar encil ar yr Ynys, er mwyn rhannu'r Cymun Sanctaidd yn yr awyr agored. "Can I join you?" gofynnais i, gan ryfeddu fod fy ngweddi wedi ei hateb! I dorri stori hir yn fyr, roedd y grŵp yn dod o eglwys 'gartref' fy merch fedydd, o bob man, ac roedd y gwasanaeth syml yn ôl litwrgi Cymuned Iona yn fendith fawr. Fe wnaethon ni i gyd brofi presenoldeb Iesu gyda ni, fel roedd o gydag Aidan a Cuthbert ac Oswald a seintiau eraill yr Ynys yn yr oesoedd gynt.

Yna, yn olaf, a hynny ar Sul olaf fy nghyfnod o seibiant, roeddwn i mewn gwasanaeth Cymun Sanctaidd mewn Eglwys Fethodistaidd yn Lloegr, yn dilyn trefn gwasanaeth cyfarwydd, gydag emynau cyfarwydd a chroeso cynnes, cyfeillgar pobl gyfarwydd – er nad oeddwn yn eu hadnabod! Roedd yn gyfle i fyfyrio ar y profiadau amrywiol roeddwn wedi eu cael dros y chwe wythnos o seibiant. Profiadau o 'wneud hyn er cof' am Iesu a rhannu bara a gwin â dilynwyr eraill. Rhoddais ddiolch i Dduw am y fraint, a gobeithiaf yn fawr y byddwch chithau'n profi llawenydd a heddwch tebyg wrth i chi "wneud hyn er cof" amdano, lle bynnag y byddwch.
Pasg Hapus.






**Gwyliedydd**

**CYFNODOLYN CYMRAEG YR EGLWYS FETHODISTAIDD**

Sefydlwyd 1877
– Cyfres Newydd 1987

**RHIF 241**
**EBRILL – MAI 2023**

Dylid gwneud sieciau yn daladwy i "Yr Eglwys Fethodistaidd – Cylchdaith Cymru"

***SYLWER AR Y NEWID YN ENW'R CYFRIF, OS GWELWCH YN DDA***

**BARN Y CYFRANWYR UNIGOL A FYNEGIR YN YR EITEMAU UNIGOL**

**GOLYGYDDION**
**ROBIN JONES**
LLYS ALAW,
18 STAD ERYRI
BETHEL,
CAERNARFON
GWYNEDD LL55 1BX
Ffôn 01248 670140
Ffôn symudol 07780 869907
e-bost robinbethel@tiscali.co.uk

**FFION ROWLINSON**
CRUD YR AWEL
LÔN NEWYDD COETMOR
BETHESDA,
GWYNEDD
LL57 3DT
Ffôn 01248 605365
Ffôn symudol 07554 958723
e-bost ffion.rowlinson@trysor.f9.co.uk

**DYDDIAD CAU**
10 MAI 2023

Llun y clawr gan Annest Rowlinson

Dyluniwyd gan Ffrwd Cyfyngedig
Argraffwyd gan Wasg y Lolfa

# Diolch

Diolch yn fawr am y rhoddion hael a dderbyniwyd tuag at gostau cyhoeddi a dosbarthu'r Gwyliedydd.

| | |
|---|---|
| Capel Wesle Trefor, Môn | £ 25-00 |
| Eglwys Gydenwadol Llangollen | £ 25-00 |
| JM a G Griffiths, Llanhari | £12-00 |
| Capel Rehoboth, Corwen | £100-00 |
| Capel Seion, Llanrhaeadr ym Mochnant | £100-00 |
| Capel Hebron, Y Rhewl | £ 40-00 |
| Capel Preswylfa, Cyffordd Llandudno | £ 20-00 |
| Eglwys Seion, Glyndyfrdwy | £100-00 |
| Merle Davies, Abergwaun | £ 20-00 |
| Capel y Triniti, Pontarddulais | £ 7-00 |
| Capel Soar Tre'rddol ar ran y tair sy'n gyn-aelodau | £ 25-00 |
| Er Cof am y Parchg O E Evans a Mrs Margaret Evans gan Angharad, Geraint, Bronwen a Dewi | £ 27-00 |
| Elwyn Ashford Jones, Pwllglas | £ 25-00 |
| Capel Salem, Rhyd y Foel | £ 30-00 |
| Gwen Griffith, Deiniolen | £ 20-00 |
| Morfudd Roberts, Abergele | £ 40-00 |
| Ifor G Jones, Llanfairpwll | £ 10-00 |
| Capel Soar, Penygarnedd | £ 20-00 |
| Dienw | £ 10-00 |
| CYFANSWM | £656-00 |



# GAIA

Gan Ffion Rowlinson

Tynnwyd llun clawr y rhifyn yma yng Nghadeirlan Caer, sef un o'r llefydd y dangoswyd prosiect celf o'r enw Gaia gan Luke Jerram. Yn saith metr o ddiametr, cafodd ei greu o luniau manwl NASA o arwyneb y Ddaear. Mae'r cerflun 1.8 miliwn gwaith yn llai na'r Ddaear go iawn, gyda phob centimetr yn dangos 18km o arwyneb y Ddaear. Os bydd rhywun yn sefyll 211m oddi wrtho, mae'n bosib gweld y Ddaear fel y mae'n ymddangos o'r lleuad.

Wrth sôn am ei waith, mae Luke Jerram yn crybwyll fod y ddynoliaeth wedi syllu i fyny ar y lleuad ers 200,000 o flynyddoedd ond mai hanner canrif yn unig sydd ers i bobl allu gweld y Ddaear, ein planed ni, o'r gofod. Mae Gaia yn galluogi pobl i gael teimlad tebyg i'r hyn a gafodd gofodwyr wrth weld y rhyfeddod glas yn arnofio yn nüwch y gofod. Hefyd, heblaw am wneud i rywun ryfeddu, mae'n ein harwain i feddwl beth rydym ni'n ei wneud i'n byd a sut le fydd yma i blant ein plant. Ar yr un pryd, mae'n rhoi ymdeimlad o berthyn, gan mai rhan o un byd yw pob gwlad a chymdeithas ddynol.

Cafodd rhai ohonom gyfle i groesi moroedd i fwynhau gweld mwy ar y byd. Gorfod ffoi dros dir a môr rhag erledigaeth a phoenydio y mae pobl lai ffodus. Ar hyn o bryd fe welwn lywodraeth druenus yn gyrru Bil Mudo anghyfreithlon ('a' fach yn fwriadol yn y trydydd gair) drwy Senedd y DU. Boed inni wrthwynebu ffwlbri creulon o'r fath ac ymuno yng ngweddi Tudor Davies:

*O gwared ni rhag in osgoi*
*y sawl ni ŵyr at bwy i droi;*
*gwna ni'n Samariaid o un fryd,*
*i helpu'r gwael yn hael o hyd.*

# Teyrnged Karen Wynne i'w nain, y ddiweddar Mrs Nancy Hughes



Ar y pedwerydd ar ddeg o Orffennaf 1920 y ganed Margaret Ann Hughes sef Nancy neu Anti Nans i lawer, Nana i mi. Doedd hi ddim yn hoff iawn o'r enw Margaret Ann am ei fod yn ei hatgoffa o fod mewn trwbwl yn yr ysgol. Nana mewn trwbwl?! Ia, am siarad gormod! Er hynny fe ddysgodd ysgrifennu'n fendigedig yn yr ysgol honno ac ennill gwobr am ei llawysgrifen hardd. Ar hyd ei hoes byddai'n ymfalchïo ym mhopeth a wnâi. Bu canmol mawr i'w gwaith mewn sawl man ac roedd yn arbennig o falch o ganmoliaeth i'w gwaith smwddio.

Er hynny, nid gwaith oedd popeth iddi, a byddai wrth ei bodd yn cael hwyl a chwarae gemau. Roedd hi'n giamstar ar chwarae draffts a dominos a hyd yn oed 'pie face'! Byddai hi a Taid yn mynd i lawer o lefydd gyda'u carafán, ond un o hoff lefydd Nana i fynd iddynt oedd Carreg Lleon, Capel Garmon lle magwyd hi. Ar ôl colli Taid, ymhen amser, daeth yr awydd i deithio yn ôl iddi. "Licien i fynd fyny i'r awyr mewn êroplên un waith cyn imi gau fy llygaid am byth," meddai hi. Er mawr bryder i Dad, hedfanodd i Ynys Zante – a chan nad oedd Taid erioed wedi hedfan, mi aeth â'i lun o efo hi!

Rhywbeth arall y treuliodd Nana oriau'n ei wneud oedd gwau. Dwi'n cofio gweld edafedd ganddi ym mhobman wrth iddi wau fair isle. Dryswch llwyr i mi ond, fel arfer, roedd Nana'n gwybod yn union beth i'w wneud a phopeth yn cael ei wneud yn gywrain. Daeth y gwau yn bwysig tu hwnt iddi wedi inni golli Dad, cannwyll ei llygaid. Er ei galar a'i hiraeth am ei mab, beth wnaeth Nana? Meddwl am helpu pobol eraill a gwau fflat owt er mwyn gwerthu pethau i godi arian a helpu pobol eraill.

Roedd cael mynd i'r capel yn un o'r pethau pwysicaf i Nana. Er na allai fynd yn y blynyddoedd diwethaf, byddai wrth ei bodd yn gwylio *Dechrau Canu, Dechrau Canmol*. Roedd ganddi hiraeth am 'deulu'r capel' a oedd bob amser yn ei chalon. Tra roedd yn gallu, roedd wrth ei bodd yn cadw mewn cysylltiad efo'i hanwyliaid i gyd, ac mae pawb yn cofio ei gwên. Am wên oedd ganddi! Roedd Nana fel goleudy llawn gobaith inni, ei chalon onest yn llawn cariad. Diolchwn am y wên enfawr, fendigedig a roddodd hi yn ein calonnau ninnau.



## Salm 1

Gwyn ei fyd y gŵr ni rodia yng nghyngor yr annuwiolion, ac ni saif yn ffordd pechaduriaid, ac nid eistedd yn eisteddfa gwatwarwyr.

Ond sydd â'i ewyllys yng nghyfraith yr Arglwydd; ac yn myfyrio yn ei gyfraith ef ddydd a nos.

Ac efe a fydd fel pren wedi ei blannu ar lan afonydd dyfroedd, yr hwn a rydd ei ffrwyth yn ei bryd; a'i ddalen ni wywa; a pha beth bynnag a wnêl, efe a lwydda.

Nid felly y bydd yr annuwiol; ond fel mân us yr hwn a chwâl y gwynt ymaith.

Am hynny yr annuwiolion ni safant yn y farn, na phechaduriaid yng nghynulleidfa y rhai cyfiawn.

Canys yr Arglwydd a edwyn ffordd y rhai cyfiawn: ond ffordd yr annuwiolion a ddifethir.



# Y diweddar Barchedig Gwynfor Williams



Ar Ionawr 14 eleni daeth y newydd trist am farwolaeth y Parchedig Gwynfor Williams. Yn dilyn gyrfa gyda'r Gwasanaeth Ambiwlans, ordeiniwyd Gwynfor yn weinidog gyda'r Annibynwyr a daeth wedyn yn Weinidog Awdurdodedig gyda'r Eglwys Fethodistaidd a chael ei dderbyn yn ddiweddarach i 'Gyfundeb Llawn'. Dros nifer helaeth o flynyddoedd gwasanaethodd yn ddiflino ym Môn ac Arfon. Daeth tyrfa i dalu teyrnged iddo yn ei angladd yng Nghapel y Maes, Caernarfon ar 30 Ionawr.

**Rhan o deyrnged a draddodwyd i'w thad gan Eurgain Owen**

Ganwyd Dad 90 o flynyddoedd yn ôl, yr ail blentyn i Thomas a Nellie Williams. Mi gafodd blentyndod hapus iawn. Un o'i bleserau mwyaf yn fachgen oedd treulio oriau efo'r merlod gwyllt ar ochr y bryniau, a pharhaodd ei ddiddordeb mewn ceffylau a marchogaeth weddill ei oes. Tra yn yr ysgol yn yr Higher Grade yng Nghaernarfon mi feddyliodd ymuno â'r French Foreign Legion gan fod ffrind iddo yn ymuno, ond mynd i weithio i D.J. Williams yn y Brunswick Iron Works yng Nghaernarfon ddaru Dad. Yna cafodd brentisiaeth fel brici efo Mr Salesbury, yr oedd ganddo barch mawr iddo am ei fod yn cynnig amodau a chyflog teg iawn i'w weithwyr.

Yn 1955 y priododd Mam a Dad, partneriaeth a barodd 67 o flynyddoedd. Mi ges i fy ngeni yn 1957 a Delyth 5 mlynedd yn ddiweddarach. Ond nid dwy ferch yn unig oedd gan Mam a Dad achos roedd ganddynt fab hefyd yng ngolwg Dad, sef Dafydd ein cefnder oedd wedi ei fagu efo Taid a Nain. Byddai Dad yn mynd â fo am dro yn y goets i fyny lôn Tŷ Du yn Llanberis ac i'w annwyl Clegir. Roedd Clegir yn annwyl iawn i Dad gan mai o Bengwaith, neu i roi ei enw llawn iddo, Penbwlchygroes, yr hanai teulu Nain. Roedd yn hynod falch fod ei gyndeidiau yn gyfrifol am godi capel Clegir. Dywedai'n aml hefyd mor falch oedd iddo gael ei fagu yn Llanbêr mewn cymdeithas glòs chwarelyddol. Dyna a'i hysgogodd mae'n siŵr i fod yn flaenllaw yn yr ymdrech i gael iawndal i'r chwarelwyr a oedd yn dioddef o glefyd y llwch.

Gan mai'r bryniau oedd man chwarae fy nhad yn blentyn, doedd ryfedd yn y byd iddo fod yn un o sylfaenwyr tîm achub mynydd Llanberis ynghyd â Christopher Briggs o Westy Penygwryd. Yn y cyfnod yma y daeth yn ffrindiau efo Edmund Hillary a Sherpa Tenzing a oedd yn ymwelwyr cyson â'r ardal. Yn y 60au ymunodd Dad â'r Gwasanaeth Ambiwlans a rhwng ei swydd ddyddiol a'i waith gyda'r tîm achub mynydd fe welodd bethau dychrynllyd iawn gan gynnwys damwain angheuol ar yr Wyddfa lle collodd nifer o hogiau bach eu bywydau wrth ddisgyn i'w marwolaeth. Yn ystod yr holl dristwch a welodd ni chollodd ei ffydd o gwbl, os rhywbeth fe'i gwnaeth yn gryfach a rhoi iddo empathi i ddelio efo problemau pobol boed yn feddyliol neu gorfforol. Roedd ganddo bob amser glust i wrando ac ni fyddai byth yn barnu.

Rhoddodd fy nhad flynyddoedd o'i amser hefyd i fod yn Ynad Heddwch a bu'n weithgar iawn efo Urdd Sant Ioan gan dderbyn medal y British Empire am ei ymroddiad a'i waith diflino i'r Urdd. Roedd Dad yn eithriadol o ffeind ond does ryfedd yn y byd oherwydd roedd ei fam a'i hen nain yn ffeind ofnadwy, yn rhannu eu ceiniogau olaf, a byddai yn dweud yn aml fod ei hen nain yn gadael llefrith mewn piser wrth y ffynnon ym Mhengwaith i'r chwarelwyr gael dropyn i'w yfed ar eu ffordd adre.

I Landdeusant, cartref ei nain, y byddai Dad yn mynd ar ei wyliau yn blentyn, man a fu'n eithriadol o agos at ei galon ar hyd ei oes. Yno y pregethodd gyntaf. Yn 1981 cafodd ei ordeinio'n weinidog gyda'r Annibynwyr yn Gaerwen a Llanddaniel Fab. Roedd Dad yn gredwr cryf mewn bugeilio ac yn ymweld yn rheolaidd â'i aelodau boed gartref neu mewn ysbyty. Cafodd hefyd y pleser o weinyddu ym mhriodasau a bedyddiadau nifer o'i deulu. Diolch i Mam a Dad am fod yn gefn i ni i gyd fel teulu ac am eu cariad di-ben-draw. Diolch o galon i chi y cyfeillion ffyddlon a fu'n ffonio a galw yn rheolaidd yn Nrws y Llan yn ystod gwaeledd y ddau. Dwi'n gobaith fod Dad a Mam wedi gwerthfawrogi eich cyfeillgarwch yn fawr iawn. Ac yng ngeiriau ein ffrind annwyl Norah [O'Brien], diolch am gael bod yn rhan o'ch stori.

# Capel Ni
## yn Eglwys Iesu

## Tabernacl, Llanfyllin

**SUL Y GWAHANGLEIFION**
Arweiniwyd ein gwasanaeth ar Sul y Gwahangleifion gan Mr Huw Ellis. Gwnaed casgliad o £250 tuag at yr achos. Diolch i Mrs Mair Ellis am wneud y trefniadau.

**DYDD GWEDDI BYD EANG**
Merched Taiwan oedd yn gyfrifol am lunio'r gwasanaeth eleni a'i thema oedd 'Mi a glywais am eich ffydd'. Cymerwyd y rhannau gan aelodau o eglwysi'r dref ac addurnwyd y capel gan aelodau'r pwyllgor. Mwynhawyd paned yn y festri wedi'r oedfa.

**GWELLHAD**
Dymunwn wellhad buan a llwyr i Meirion Jones, Bryn Coch, sydd wedi derbyn triniaeth yn yr ysbyty. Ein cofion cynhesaf ato.

**CYFARCHION PEN-BLWYDD**
Llongyfarchiadau i Mr Robin Hughes (cyn ohebydd y Gwyliedydd) ar ddathlu ei ben-blwydd yn 90 oed ym mis Ionawr a dymuniadau gorau am lawer blwyddyn eto.

**RHODD AT ELUSEN**
Roeddem wedi ein brawychu wrth glywed y newyddion am y ddaeargryn yn Nhwrci a Syria, felly penderfynwyd anfon rhodd o £300 tuag at gronfa i roi cymorth wedi'r gyflafan.

**GOHEBYDD** . ALWENA FRANCIS

## Ebeneser, Dolgellau

**CINIO**
Mwynhawyd Cinio Nadolig efo'n gilydd yn y Clwb Rygbi, yn dilyn gwasanaeth bore Sul 15fed Ionawr. Bwriadwyd cynnal y cinio ar ôl ein Gwasanaeth Carolau ym mis Rhagfyr ond bu'n rhaid ei ohirio.

**LLONGYFARCHIADAU**
Llongyfarchiadau unwaith eto i Alan ac Alison Woodbridge ar ddod yn daid a nain ym mis Chwefror. Ganwyd Noah Tomos i Beci a Rich yng Nghaerdydd.

**CYDYMDEIMLO**
Bu farw Mr Albert Charles Walker yn 83 oed ar y 23ain Ionawr, ewythr i Jane Thomas. Cydymdeimlwn â Jane a'r holl gysylltiadau teuluol yn eu colled.

**CAFFI CAPEL**
Ar y 29ain Ionawr cawsom oedfa Caffi Capel yn y Llyfrgell Rydd dan arweiniad Alison Woodbridge. Addoli a dysgu mewn ffordd anffurfiol a phawb yn mwynhau paned a bisged.

**CYFARCHION PEN-BLWYDD**
Ar ôl y Gwasanaeth ar y 19eg Chwefror mwynhawyd paned a chacen efo'n gilydd i ddathlu pen-blwydd Mrs Mary Davies yn 98 oed.

**GOHEBYDD** . BERYL NORGROVE

## Bethel, Rhiwbeina

**OEDFAON**
Ar 8 Ionawr roedd ein gwasanaeth yng ngofal y Parchedig Dafydd Owen. Yn ystod y mis cawsom hefyd gyfle i groesawu i'r pulpud Mr Mansel Jones, y Parchedig Eirian Rees a Mr Emlyn Davies. Yna ym mis Chwefror croesawyd y Parchedig Lona Roberts a Mrs Helen Jones. Ar Chwefror 19 ein gweinidog oedd yn arwain y gwasanaeth ac roedd yn bleser croesawu teulu a ffrindiau Elliw ac Oswyn Richards ar achlysur bedyddio eu hŵyr. Rydym yn dymuno pob hapusrwydd i Lois, Trefor a'r mab bach newydd, Tomi. I gloi'r mis cawsom wasanaeth Cymun yng ngofal ein gweinidog y Parchedig Evan Morgan.

**FFILMIO**
Ar Chwefror 27 bu tipyn bach o gyffro pan ddaeth criw o'r BBC/S4C i'r capel i ffilmio drama ar gyfer S4C.

**GOHEBYDD .**
GWENDA FRANCIS

## Ardal Bathafarn

**OEDFAON**
Bu Elizabeth yn cynnal oedfa a gweinyddu'r Cymun a bu'r Parchedig Marc Morgan yn cynnal oedfa ym Mathafarn a Glyndyfrdwy ym mis Chwefror. Hyfryd oedd cael cwmni Awen, merch Rhian a Rhodri, a Marged ei merch fach hefyd. Cyfeiliwyd gan Rhian a llywyddwyd gan Rhodri. Ym mis Mawrth cynhaliwyd Oedfa Gymun Gŵyl Dewi Undebol tref Rhuthun yma ym Mathafarn a hyfryd oedd cael dod at ein gilydd unwaith eto. Pregethwyd gan Elwyn Ashford Jones a chafwyd neges bwrpasol ganddo. Gweinyddwyd y Cymun gan Elizabeth. Tro Bethania oedd hi i'n croesawu i wasanaeth Dydd Gweddi Byd-eang a chymerwyd rhan gan Lucy, Meta ac Elizabeth o Fathafarn. Diolch i Rhian am ein cynrychioli ar y pwyllgor trefnu. Thema gwasanaeth eleni oedd *Clywais am eich ffydd* ac fe'i paratowyd gan Chwioryd Taiwan.

**APÊL TWRCI A SYRIA**
Trefnwyd Bore Coffi gan gyfeillion y Tabernacl a Bethania a hyfryd oedd gweld cynifer o bobl wedi dod ynghyd a festri'r Tabernacl dan ei sang. Casglwyd swm anrhydeddus iawn sef £2,000. Diolch i bawb am eu haelioni ac i bawb a fu'n brysur yn gofalu am y coffi a'r te a'r stondinau cacennau a chynnyrch cartref blasus.

**NEWID AELWYD**
Dymuniadau gorau i Margaret Hughes, Croesoswallt gynt, wrth iddi ymgartrefu yng Nghartref Plas Llanrhaeadr ger Dinbych. Bu hithau'n selog yng nghapel Bathafarn. Cofion anwylaf ati.

**COFION**
Anfonwn ein cofion anwylaf a'n dymuniadau gorau am wellhad buan i Llinos Mary Jones, hithau yn selog wrth gynnal oedfaon i ni; i Dilys Jones sydd wedi cael triniaethau i'w llygaid; i Hywel ac Enid Edwards, Glyndyfrdwy; Olwen Griffiths; Cyril Jones; Lorna Wynne a Stephen Griffiths. Gobeithio y bydd arwyddion y gwanwyn yn rhoi hwb i chi i gyd.

**CYDYMDEIMLO**
Estynnwn ein cydymdeimlad diffuant at Audrey Jones o golli ei chwaer yng nghyfraith, a Cyril Jones sydd wedi colli brawd yng nghyfraith ym Metws yn Rhos. Meddyliwn amdanoch fel teuluoedd.
**GOHEBYDD** . ELIZABETH JONES



## Bethel, Prestatyn

**GWASANAETH TEULU**
Cawsom wasanaeth teulu arbennig yng nghwmni Mr Andy Hughes, Y Bala. Roedd yn llawn hwyl gyda gwahoddiad i'r plant a'r oedolion ddod ymlaen i actio stori'r Iesu yn troi'r dŵr yn win, llawer o holi ac ateb, gwylio ffilm, canu i gyfeiliant gitâr, a'r gynulleidfa yn galw allan beth roeddent yn ddiolchgar amdano fel rhan o'r weddi. Ar ddiwedd yr oedfa cafodd pawb gyfle i gofnodi gweddi bersonol er mwyn cofio'n cyd-ddyn ledled y byd a daeth rhai o'r plant o amgylch i gasglu'r gweddïau a'u gosod ar faner Wcráin.






**DATHLU GŴYL DEWI**
Daeth Mrs Delyth Davies a Mrs Lizzie Evans, Deganwy (pregethwr lleol ar nodyn) atom ar gyfer gwasanaeth i ddathlu Gŵyl Dewi. Roedd yn wasanaeth gafaelgar a hynod o ddiddorol, yn apelio at bob oed.

Mae llawer o'n plant yn mynychu Ysgol y Llys, Prestatyn a daeth criw o ddisgyblion saith, wyth a naw oed i ymweld â'r capel ar fore Dydd Gŵyl Dewi. Roedd yn hyfryd cael y capel yn llawn o leisiau plant yn canu. Cafodd yr aelodau oedd wedi galw i mewn i'w gweld fwynhad mawr.



**LLONGYFARCHIADAU**
Mae'n hyfryd gweld ein plant yn tyfu a datblygu ac rydym yn falch o ddathlu eu llwyddiannau. Llongyfarchiadau mawr i Esme am ennill cystadleuaeth dawns 'body rock', i Noa a Casi am ennill medalau am eu gwaith yn Taekwondo ac i Alaw am gael ei dewis i ganu yng nghorws sioe Hansel a Gretel gydag Opera Canolbarth Cymru. Dymunwn yn dda hefyd i'r plant sy'n paratoi ar gyfer cystadlu yn Eisteddfodau'r Urdd.

**MERCHED METHODISTAIDD**
Rydym yn edrych ymlaen at groesawu Cyfarfod Gwanwyn Merched Methodistaidd yma i Fethel ar Ebrill 22ain. Byddwn yn dechrau am 12.30 gyda Chinio Cyfeillgarwch a chyflwyniad gan rai o chwiorydd y Gylchdaith ar y thema 'Yn gymaint ag ichi ei wneud i un o'r lleiaf o'r rhain, fy mrodyr, i mi y gwnaethoch'. Croeso cynnes i bawb.

**GOHEBYDD** . GWENDA HUMPHRIES

## Preswylfa, Cyffordd Llandudno

**ER COF ANNWYL**
Yn dawel yn Ysbyty Glan Clwyd ar Ragfyr 22ain bu farw Iris Jones, Walton Crescent yn 86 mlwydd oed. Priod annwyl y diweddar Tony Jones ac unig blentyn y diweddar John ac Ellen Charlton. Roedd Iris yn aelod ffyddlon yn Eglwys Preswylfa. Roedd ganddi bersonoliaeth dawel a gwên bob tro. Bu ei hangladd yn Eglwys Preswylfa ar 31 Ionawr dan arweiniad y gweinidog y Parchedig Marc Morgan, yn cael ei gynorthwyo gan y Parchedigion Roger Roberts, R Ifor Jones a Gareth Edwards. Yr organydd oedd Jane Jones. Traddodwyd y deyrnged gan y Parchedig Roger Roberts. Cydymdeimlwn â'i ffrindiau i gyd.

**GWELLHAD BUAN**
Ein cofion at yr aelodau sydd yn fregus eu hiechyd – brysiwch wella. Ein cofion hefyd a'n dymuniadau gorau i Robin Jones un o olygyddion y *Gwyliedydd*.

**CROESO**
Croeso cynnes i Siân Garstang yn ôl atom i Breswylfa. Gan fod capel Lloc gwaetha'r modd wedi cau, mae Siân wedi dod yn aelod yma eto.

**GOHEBYDD** . EIRIAN JONES



**PANED A SGWRS**
Mae Paned a Sgwrs bob bore Mercher yn boblogaidd iawn – cyfle i gyfarfod ffrindiau, yfed coffi a rhoi'r byd yn ei le. Diolch i bawb sy'n cymryd eu tro i baratoi'r lluniaeth.



## Gweithredu Dros Blant

Hoffem ddiolch am y rhoddion isod tuag at Gweithredu dros Blant, sydd wedi dod i law ers rhifyn diwethaf y *Gwyliedydd*:

Trwy ewyllys y diweddar Barchg Gwilym O Jones – £2,000.00
Seion, Llanrhaeadr YM – £100.00
Pendref, Dinbych – £50.00
Sheila Thomas a Bethan Roberts – £110.00
Salem, Rhyd-y-foel (Nadolig) – £150.00

Anfonwyd y swm o £2,410.00 ymlaen yn enw Cylchdaith Cymru.
Gyda diolch am bob cyfraniad ac am eich cefnogaeth
Parchg. Marc a Mrs Margaret Morgan

Llety'r Bugail, 1 Cwrt Eden,
Gwersyllt, Wrecsam, LL11 4FF
☎ 01978 756717
cwrteden@gmail.com

# CEREDIGION

gan y **Parchedig Flis Randall**, Arolygydd Cylchdaith Ceredigion

Cylchdaith gymharol fach yw Cylchdaith Ceredigion ac (fel y mae'r enw yn awgrymu) mae'n cwmpasu ardal ddaearyddol sir Ceredigion. Rai blynyddoedd yn ôl, sefydlwyd cylchdaith ddwyieithog yma, gyda dau weinidog yn gofalu am ein heglwysi Cymraeg a Saesneg. Erbyn i mi gyrraedd yn 2021 roedd hyn wedi newid ac un gweinidog yn unig sydd gan Geredigion bellach, yn rhoi gofal bugeiliol i ddwy gynulleidfa Saesneg sef Sant Thomas, Llanbedr Pont Steffan a Sant Paul, Aberystwyth. Ond yr hyn sydd heb newid o gwbl yw'r cydweithio rhwng y cynulleidfaoedd Saesneg a Chymraeg yn y gylchdaith, ac ymlyniad Cylchdaith Ceredigion i iaith a diwylliant Cymru.

### Canolfan Sant Paul

Yn un peth, mae Canolfan Fethodistaidd Sant Paul yn gartref i ddwy gynulleidfa, yr un Saesneg sy'n addoli yn y neuadd i lawr y grisiau, a'r un Gymraeg sy'n addoli i fyny'r grisiau yn yr Octagon.

Daw ymddiriedolwyr y ganolfan o'r ddwy gynulleidfa ac maent yn cydweithio i gynnal a chadw'r adeilad a hyrwyddo'r gwaith a wneir ynddo a thrwyddo. Byddwn hefyd yn manteisio ar y cyfle i addoli gyda'n gilydd yn ddwyieithog pryd bynnag y gallwn.

Mae sawl un o'n Pregethwyr Lleol wedi dysgu Cymraeg ac yn pregethu'n rheolaidd yn yr eglwysi Cymraeg – drwy hyn mae pawb ar ei ennill oherwydd mae'r eglwysi Cymraeg yn gwerthfawrogi cenadwri'r pregethwyr, a'r pregethwyr hwythau yn falch o'r cyfle i ymarfer eu Cymraeg!

Rydym yn croesawu pob cyfle a gawn i weithio'n ddwyieithog o fewn y gylchdaith. Er enghraifft, rydym yn gweithio gyda myfyrwyr yn Aberystwyth, rhai ohonynt yn Gymry Cymraeg ac eraill o wahanol gefndiroedd yn astudio'r Gymraeg yn y brifysgol. Bydd myfyrwyr yn sgwrsio ac ymarfer eu Cymraeg, a thrafod diwylliant Cymru, yn y gweithgareddau a drefnir gennym ar gyfer myfyrwyr. Gan fy mod i fy hun yn dysgu Cymraeg, rwy'n gwerthfawrogi hyn! Mae'r ddau gapel wedi'u dynodi'n Ganolfannau Clyd a daw pobl i sgwrsio yn y ddwy iaith pan fyddwn yn agor ein drysau o wythnos i wythnos.

### Dim gwahanfur

Mae'r gwaith ecwmenaidd bob amser yn ddwyieithog yng Ngheredigion, ac mae'r ddwy gynulleidfa'n cymryd rhan yn rheolaidd mewn digwyddiadau ac oedfaon. Yn y bôn, dydym ni ddim yn gweld unrhyw wahanfur rhwng y ddwy iaith: rydym yn arddel y ddwy ac yn llawenhau ein bod yn gallu gweithio yn y modd hwn.

Yn olaf, fel rhan o'n hymrwymiad i fod yn rhan o'r dalaith newydd, Synod Cymru Wales, a chan ein bod wedi ein lleoli mewn rhan o Gymru lle mae'r iaith a'r diwylliant Cymraeg mor gryf a chyfoethog, mae'r gylchdaith wedi ymrwymo i baratoi gwefan newydd, ddwyieithog. Rydym wrth ein boddau fod hyn yn digwydd o gofio y bydd cylchdeithiau eraill yn y Synod yn gwneud yr un peth.





**Rhai o Fethodistiaid Ceredigion**
Yn y llun cyntaf gwelir Flis gyda Delyth Evans, aelod o gynulleidfa Gymraeg Sant Paul ac Ann a Chris Price, aelodau o'r gynulleidfa Saesneg, ill dau yn bregethwyr lleol sy'n pregethu yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg. Yn yr ail lun gwelir Menna Evans, aelod o gynulleidfa Gymraeg Sant Paul, gyda'r Parchg Jennie Hurd a'r Parchg Peter Barber, uwchrif yng Nghylchdaith Ceredigion.

# MAE GOBAITH O HYD

*gan Glyn Tomos*

Mi fyddaf yn dweud yn aml mai seicoleg fyddai'r pwnc yr hoffwn ei astudio pe cawn y cyfle eto i ddychwelyd i'r Brifysgol (petawn yn gallu cael fy nerbyn!).

Pam seicoleg, medde chi? Y gobaith yw y byddai astudio pwnc o'r fath o help mawr i mi wybod beth sy'n digwydd ym meddwl pobl eraill, ac i ddeall mwy ynghylch pam bod pobl yn ymddwyn fel ag y maent. Yn fwy na thebyg byddai astudio'r pwnc yn gwneud i rywun ofyn mwy a mwy o gwestiynau yn hytrach na dod o hyd i atebion syml. Mae'r meddwl dynol yn gymhleth ac yn ddiddorol yr un pryd.

Mae'n siŵr bod hyn oherwydd y diddordeb sydd gen i erioed mewn pobl, ac un o'r pethau dwi yn ei wneud ar adegau wrth ddisgwyl i'r wraig a'r ferch orffen eu siopa dillad (!) mewn ambell i ddinas, yw naill ai mynd i gaffi am baned a gwylio pobl o'm cwmpas neu fynd i eistedd ar fainc yn y stryd fawr a gwylio pobl yn mynd heibio. 'People watching' ydy'r term am hyn yn Saesneg. Mae'n ddiddorol gweld pobl o bob lliw a llun yn prysur fynd i lefydd – rhai yn rhuthro fel cath i gythraul, eraill yn cario bagiau o fwyd neu ddillad, eraill yn bwyta brechdanau a diod ysgafn wrth gerdded, neu rieni gyda'u plant. Mae'r byd i gyd yn mynd yn ei flaen o flaen fy llygaid a minnau yn meddwl ysgwn i be ydy hanes a chefndir yr holl bobl hyn. Wrth gwrs chaf i byth wybod hynny ond tydi o ddim yn tynnu dim o'r diddordeb mewn pobl.

Yn gynyddol y dyddiau hyn, yn enwedig ar strydoedd ein trefi a'n dinasoedd, y darlun mwya cyffredin yw gweld pobl yn eu tlodi. Mae hyn i'w weld o ran eu gwisg a'u pryd a'u gwedd. Byddaf yn gweld digalondid ac anobaith ac arwydd bod bywyd yn galed ac yn heriol iawn i nifer. Ar ôl cerdded o gwmpas y dref lle rwyf yn byw byddaf yn dod adra ar adegau yn teimlo yn bur ddigalon o weld cymaint o ddioddef o'm cwmpas, ac nad oes argoel fod pethau ar wella yn fuan iawn.

Ar ôl dweud hynny fe gefais fy narbwyllo unwaith yn rhagor rai wythnosau yn ôl fod gobaith o hyd tra bod gennym unigolion a chymdeithasau sydd mor barod i dorchi eu llewys a gwneud diwrnod da o waith i gefnogi eraill sydd yn darganfod eu hunain mewn sefyllfa dywyll dros ben oherwydd y wasgfa ariannol bresennol neu sydd yn gofalu am unigolion sydd yn dioddef o salwch cymhleth a thrist iawn.

Wrth fynychu cyngerdd dathlu yn ddiweddar yng nghapel mawreddog Moreia Llangefni (Eglwys Bresbyteraidd Cymru) Ynys Môn cawsom wybod sut mae aelodau'r capel wedi gafael yn yr awenau a mynd ati i addasu'r adeilad a'i wneud yn fwy perthnasol i anghenion heddiw y bobl leol. Y diwrnod hwnnw roedd agoriad swyddogol Canolfan Glanhwfa sydd yn rhan o'r capel, a'r cyngerdd gyda'r nos yn dathlu hynny.

Tra bod gwasanaethau yn parhau i gael eu cynnal yn y capel ar y Sul, mae defnydd llawn yn cael ei wneud o'r adeilad trwy gydol yr wythnos. Mae Canolfan Glanhwfa yn gartref i sawl darpariaeth gwasanaeth hanfodol er budd y gymuned leol. Cynhelir clwb cinio yno, sydd yn gyfle i gymdeithasu dros ginio dau gwrs blasus a chyfle i dderbyn gwybodaeth am wasanaethau Age Cymru Gwynedd a Môn. Hefyd trefnir Banc Bwyd a darpariaeth ar gyfer pobl â dementia yno yn y Ganolfan. Gyda'r nos mae Côr Ieuenctid Môn yn cynnal eu hymarferion yno ac mae gwersi piano preifat yn cael eu cynnal ar brynhawniau Llun. Felly gwneir defnydd llawn o'r adeilad gan bawb o bob oed. Mae'r cyfan yn fwrlwm o weithgareddau a'r adeilad yn datblygu i fod yn fan canolog a pherthnasol i fywyd y bobl leol heddiw.






Nid bod y gwaith adnewyddu wedi dod i ben eto. Mae bwriad i osod ffenestri newydd i'r capel a newid y seddau fel bod modd eu defnyddio a'u symud yn ôl y galw. Ceffyl da yw ewyllys medden nhw a gyda'r penderfyniad cywir mae unrhyw beth yn bosib, fel y mae'r datblygiad hwn yn Llangefni ac mewn sawl ardal ar hyd a lled Cymru yn ei ddangos. Yr hyn sydd yn arwyddocaol am y datblygiad ym Moreia Llangefni yw'r modd y mae'r aelodau wedi bod yn ddigon dewr i afael yn yr awenau a dangos hyder yn nyfodol yr addoldy. Nid disgwyl am weld tranc yr achos cyn gweithredu ond yn hytrach bod yn ddigon dewr i wynebu her y dyfodol a dangos bod modd cyfuno yr addoldy gyda gofynion cymdeithasol y cyfnod cyfredol fel bod pawb o fewn y gymdeithas ar eu hennill.

# Merched Methodistaidd yng ngwledydd Prydain

Croeso cynnes i bawb i'r
**Cinio Cyfeillgarwch**
sydd i'w gynnal yng nghapel Bethel, Prestatyn ar ddydd Sadwrn Ebrill 22ain am 12.30pm

Croesewir pawb i ddod â rhywbeth i'w gyfrannu a'i rannu, fel y byddwn i gyd yn rhannu ein bwyd â'n gilydd.

Ar ôl cinio bydd nifer o bobl yn dangos ac yn sôn am y crefftau y maent yn eu gwneud ar gyfer eraill.

'Yn gymaint ag ichi ei wneud i un o'r lleiaf o'r rhain, fy mrodyr, i mi y gwnaethoch'.

## Darlith Cymdeithas Hanes yr Eglwys Fethodistaidd yng Nghymru – rhaghysbysiad



Ar ddydd Iau 10fed o Awst, yn Eisteddfod Genedlaethol Llŷn ac Eifionydd, cynhelir darlith y Gymdeithas Hanes a'r darlithydd fydd y Parchedig Aled Edwards, cyn Brif Weithredwr Cytûn. Testun y ddarlith fydd Bywyd a Gwaith y Parchedig Griffith Thomas Roberts, ysgolhaig a gweinidog Wesleaidd a fagwyd ym mhen Llŷn.

# Capel Ni
## yn Eglwys Iesu

### *Ebeneser, Treuddyn*

**DYMUNIADAU GORAU**
Anfonwn ein dymuniadau gorau i Mrs Eiddwen Jones sydd wedi dod adref o Ysbyty Glan Clwyd yn ddiweddar. Hefyd i bawb arall sydd ddim yn gallu mynychu'r oedfaon ar hyn o bryd oherwydd anhwylder.

**YSGOL SUL**
Rydym yn falch iawn o allu dweud y cynhelir Ysgol Sul unwaith eto yng nghapel Ebeneser. Mae Clwb Capel Ebeneser yn cael ei gynnal ar y Sul cyntaf o bob mis rhwng 10 - 11 y bore. Mae croeso i blant a'u rhieni fynychu'r sesiynau, pryd fydd y plant yn mwynhau stori a chrefft o'r Beibl. Rydym yn ddiolchgar iawn i Mrs Alaw Smith am drefnu a chymryd gofal o'r sesiynau a ddechreuwyd ym mis Chwefror. Mae yna groeso cynnes i bawb fynychu'r sesiynau.

**DYDD GWEDDI'R BYD**
Cynhaliwyd y gwasanaeth uchod yng nghapel Ebeneser ar ddydd Sul, Mawrth 5ed am 2.30 y pnawn. Paratowyd y gwasanaeth eleni gan ferched Cristnogol Taiwan ar y thema 'Clywais am eich ffydd'. Cymerwyd rhan yn y gwasanaeth gan y Parchedig Eirlys Gruffydd Evans ac aelodau o Gapel y Rhos, Eglwys y Santes Fair a Chapel Ebeneser.

**GOHEBYDD .** GLENYS DAVIES

### *Salem, Rhyd y Foel*

**CYDYMDEIMLO**
Anfonwn ein cydymdeimlad at deulu'r diweddar Trygan Roberts, Abergele a Wrecsam gynt. Bu'n bregethwr cynorthwyol am flynyddoedd lawer ac yn barod iawn i'n gwasanaethu yma yn Salem.

**PROFEDIGAETH**
Gyda thristwch mawr y clywsom y newyddion am farwolaeth un o'n haelodau ffyddlon sef Margaret Roberts, Ty'n Ddôl. Mae ein cydymdeimlad yn fawr â John, Wyn a'r teulu oll.

**COFION**
Ein cofion a'n dymuniadau gorau am adferiad buan i Bob Roberts, Tan yr Ogof, sydd wedi cael llawdriniaeth yn ddiweddar.

**YSGOL SUL**
Bu plant yr Ysgol Sul yn gwneud gwaith creadigol yn ddiweddar ar ôl dysgu am Joseff a'i siaced fraith. Diolch i Anna, eu hathrawes, am ei hymroddiad a'i ffyddlondeb.

**GOHEBYDD .** SIÂN PRICE



### *Shiloh Newydd, Tregarth*

**GWELLHAD**
Dymunwn wellhad buan i Hefin Williams, trysorydd y capel, yn dilyn llawdriniaeth yn Ysbyty Gwynedd, a dymunwn yn dda i Wynne Roberts nad yw wedi bod yn dda yn ddiweddar. Rydym yn meddwl amdanoch, Wynne. Meddyliwn hefyd am ein cyn-weinidog y Parchedig Philip Barnett, sy'n aros am lawdriniaeth a gobeithiwn y caiff hynny'n fuan. Anfonwn ein cofion at Philip a Catherine yn Almondbury, Swydd Efrog, gan edrych ymlaen at eich croesawu yma eto.

**OEDFAON**
Diolch i bawb fu'n gyfrifol am arwain y gwasanaethau yma yn ystod yr wythnosau diwethaf, sef Ellie Jones, Dafydd Coetmor Williams a Richard O Jones. Diolch o galon i ddau o'n haelodau fu'n gyfrifol am yr oedfa ar Fawrth 5, sef Islwyn Evans a Wynn Williams. Gwasanaeth bendithiol ganddynt. Mae'n hyfryd cael cynulleidfa bron yn llawn yn y Festri a chlydwch yr ystafell yn braf a'r gwmnïaeth yn hyfryd. Diolch i Wynn ac Einir am gyfeilio yn yr oedfaon.

**DYDD GWEDDI'R BYD**
Diolch i Norah O'Brien a Gwenda Davies am gymryd rhan o Shiloh Newydd yng ngwasanaeth Dydd Gweddi'r Byd yng nghapel Jeriwsalem, Bethesda, bnawn Gwener, Mawrth 3. Chwiorydd Taiwan oedd wedi paratoi'r gwasanaeth eleni.

**DRWS AGORED**
Mae boreau Gwener yn brysur yma pan agorir y drws i groesawu pawb o'r ardal am baned, cwmni, sgwrs a chynhesrwydd. Braf gweld y bwrlwm! Yn ddiweddar anfonwyd dwy siec o £300 yr un, y naill i DEC yn dilyn trychineb llifogydd Pacistan a'r llall i gronfa Ymddiriedolaeth Trussell. Gwnaed casgliad hefyd at apêl Daeargryn Twrci a Syria ac anfonwyd £203.46 i DEC. Diolch o galon i aelodau'r capel a mynychwyr Drws Agored am eich caredigrwydd.

**GOHEBYDD .** GWENDA DAVIES



### *Pendref, Dinbych*

**OEDFAON**
Ym mis Ionawr cynhaliwyd gwasanaethau bendithiol dan ofal y Parchedig Marc Morgan, Royce Warner, Owain Morgan, yr Hybarch Bernard Thomas ac Elizabeth Jones. Ar y ddau Sul pan nad oedd pregethwr ar gael cynhaliwyd cyfarfodydd gweddi dan ofal Bethan Roberts, Heulwen Ellis, Marjorie Williams, Elfed Evans a Gwyn Williams a mawr yw ein diolch iddynt am eu gwasanaeth. Rhannwyd cyfrifoldeb blaenor mis Ionawr rhwng Hywel Evans a Medwyn Jones gydag Elfed Evans yn gofalu am fis Chwefror. Diolch i Vera Savage a Marjorie Williams am gyfeilio ac i Gwyn Williams am arwain y canu.

Dydd Sul 5ed o Fawrth cynhaliwyd oedfa undebol Gŵyl Dewi tref Dinbych yn y Capel Mawr, dan arweiniad y gweinidog, y Parchedig Ddr Andras Iago. Ar ran Pendref cymerwyd rhan yn y gwasanaeth gan Hywel Evans.

Dydd Gwener Mawrth 3ydd cynhaliwyd cyfarfod Dydd Gweddi'r Byd yng Nghapel Unedig y Fron a'r Brwcws. Cymerwyd rhan yn y gwasanaeth, ar ran Pendref, gan Margaret Sellers a Mary Jones.

**DYMUNIADAU GORAU**
Braf oedd cael croesawu'n ôl Heulwen Ellis a Sheila Thomas ar ôl cyfnod o anhwyldeb a gwaeledd. Cofiwn am yr aelodau hynny sydd ar hyn o bryd, am wahanol resymau, yn methu mynychu'r oedfaon. Anfonwn ein dymuniadau gorau atoch i gyd.

**ARDDANGOSFA**
Fel rhan o'r arddangosfa bresennol yn Amgueddfa Dinbych mae arddangosyn yn cynnwys deunydd o hen Gylchdaith Dinbych. Mae'r amgueddfa ar agor ar brynhawn Llun ac Iau rhwng 1.30 a 4 o'r gloch.


**CYDYMDEIMLO**
Cydymdeimlwn yn ddwys fel eglwys ag un o'n blaenoriaid, Gwyn Williams, yn ei brofedigaeth o golli ei frawd a'i nai o fewn dyddiau i'w gilydd.

**GOHEBYDD .** MARY JONES



### *Bethel, Deganwy*

**GRŴP CRISTNOGOL GOFAL CANSER**
Cynhaliodd Grŵp Cristnogol Gofal Canser Ardal Conwy fore coffi llwyddiannus iawn yn ddiweddar. Enillydd dyfalu pwysau'r hamper oedd Stella Edwards, merch yng nghyfraith Marina a'r diweddar Glyn Edwards. Llwyddwyd i gasglu £293 i gronfa Cymorth Canser Macmillan. Diolch i bawb a gyfrannodd mewn arian, amser ac adnoddau a diolch i Dduw am fore bendithiol a chyfeillgar.






**DATHLU**
Ar 19 Ebrill fe gynhelir achlysur arbennig sef dathlu 200 mlwyddiant. Cynhelir cyfarfod dan lywyddiaeth y Parchedig Marc Morgan, yn dechrau am 6.30pm, gyda darlith fer gan Mr Owen Morris yn sôn am gyfraniad crefyddol Anna Waring, wedyn lluniaeth ysgafn. Croeso i bawb. Fe fydd casgliad tuag at Gronfa Cymorth Canser Macmillan.

**GOHEBYDD .** OWEN MORRIS

### *Shiloh Newydd, Rhiwlas*

**GWASANAETHAU**
Roedd yn bleser cael croesawu pawb yn ôl i wasanaeth cyntaf y flwyddyn ar 19 Chwefror. Cafwyd dechreuad arbennig i'r gwasanaethau oherwydd fe groesawyd y Parchedig Ddr Ian Morris, ein gweinidog newydd, atom am y tro cyntaf. Cawsom wasanaeth bendithiol o dan ei ofal a chynhaliwyd Sacrament y Cymun. Rydym yn dymuno'r gorau i Ian fel Arweinydd newydd Ardal Gwynedd a Môn ac yn gobeithio y bydd yn hapus iawn yn ein plith.

**COFION**
Rydym yn anfon ein cofion cynhesaf at Iona Jones, ein horganydd. Nid yw Iona wedi bod yn dda yn ddiweddar ac mae ei lle yn yr oedfaon yn wag iawn ar hyn o bryd. Brysia'n ôl, Iona.

**GOHEBYDD .** CAROL JONES

### *Ebeneser, Eglwysbach*

Llongyfarchiadau i Gwion Hughes, Bryn Hafod, ar ei ddyweddïad â Mererid Ellis o Gerrig y Drudion ger Corwen. Dymuniadau gorau i chi eich dau at y dyfodol.

**GOHEBYDD .** CHARLES CRAPPER

# ‘Malwan bach fel fi’ … yn parhau i gloddio am aur

*gan Prydwen Elfed-Owens*

Dyna golled enfawr sydd ar ôl Dr Aled Lloyd Davies, nid yn unig am ei gyfraniad i ddiwylliant Cymru ond am ei ffraethineb a’i hiwmor. Deuthum i’w adnabod drwy fyd addysg, ein diddordeb mewn canu a dawnsio gwerin ac yna fel dau gyn Gadeirydd a chyn Lywydd yr Eisteddfod Genedlaethol. Disgybl wrth draed y meistr oeddwn i! Roedd doniolwch cefn gwlad yn ei DNA:

*‘Dal dy ddŵr, ngeneth i, mi rodda’ i’r ateb iti wedi imi dywallt dropyn o baraffin i mewn i’r cyfrifiadur ma, mae o’n ara deg heddiw.’*

Sylweddolais yn ddiweddar bod cryn wahaniaeth rhwng troad ymadrodd dwy garfan benodol yn fy nghymdeithas leol – o ran arwyddocâd ‘crefydd’ yn eu bywydau. Dyma sylwadau o fysg y to ‘ifanc’:




- *Sgynnon ni ddim amser i grefydd yn ein bywyd bob dydd ni (Ymateb i holiadur)*

- *Petai’r pregethau’n fwy perthnasol i ’mywyd bob dydd, faswn i’n aros i wrando yn lle dilyn fy mhlant i’r festri i gael panad hefo’r rhieni eraill (Rhiant)*

- *God **knows** I want to be a hairdresser and He helps me because He loves me (Disgybl Ysgol Sul)*

Ac ymatebion di-flewyn-ar-dafod o fysg y to ‘hŷn’

- *Mae’r gweinidog yn chwarae gitâr ac yn defnyddio technoleg a ninnau’n griw bach yn ein hwythdegau! Rydan ni’n awchu am wasanaeth traddodiadol (Aelod)*
- *Roedd y gwasanaeth bore ma’n rhy fodern i mi (Blaenor)*
- *Mae’n gweinidog ni’n ifanc ac yn trio newid pethau i ddenu plant a phobl ifanc a dydyn ni’r ‘oldies’ jyst ddim yn licio fo (Diacon)*

Wel, sôn am gloi cyrn! Beth sy ar ein pennau ni, dudwch? Ydy hi’n bosib inni esgusodi’n hunain am y fath ymddygiad drwy ddatgan ein bod yn glynu’n dynn ac yn ffyddlon i draddodiadau seintiau? Ydy hi’n gwneud synnwyr i barhau i ddefnyddio ‘paraffin’ i danio’r ‘cyfrifiadur’ er mwyn osgoi newid, osgoi meddwl allan o’r bocs?

Ac ydy hi **wir** yn gwneud synnwyr ein bod ni’n fodlon gadael i’r ifanc ymbellhau oddi wrth Dduw am nad ydynt mwyach yn barod i eistedd fel *zombies* mewn addoldai gwag yn gwrando ar bregethau sy’n bell o fod yn berthnasol i’w bywydau pob dydd?

**A ble mae Duw ynghanol hyn i gyd?**
Onid ydy hi’n amser i ni ddihuno o’n trwmgwsg i sylweddoli fod ein byd wedi gweddnewid yn ystod y deugain mlynedd diwethaf? Bellach, ffôn symudol i bawb o bobl y byd pia hi a gwybodaeth barod o bwyso botwm: Rhyngrwyd, *Google*, *Instagram*, *Zoom* ac ati.

Croeso i’r byd rhithiol!
- prynu, heb fynd yn agos at archfarchnad
- gwerthu heb fod yn berchen siop
- pwyllgora heb adael y tŷ
- addoli heb fynychu addoldy

Oni roddodd Covid 19 y ‘*top hat*’ arnon ni? Wel, do a naddo, yn dibynnu ar hyd a lled y weledigaeth a chreadigrwydd yr arweinyddiaeth.

Yn ddiweddar bûm yn darllen i ddysgu mwy am sgiliau gwerthu a dylanwadu. Yng nghyswllt crefydd yng Nghymru heddiw tybed pwy**:**
- yw’r gwerthwyr
- yw’r prynwyr
- sy’n barod i bontio, ac yn medru
- sy’n sicrhau fod Duw ynghanol hyn i gyd?

Nodais ddau gwestiwn syml allai fod o ddefnydd i ‘**ddatgloi’r cyrn’**.

- *Sut fyddwn ni’n elwa?*
- *Sut fyddan nhw’n elwa?*

**Cyfrol**
Yn 2021, cyhoeddais gyfrol o’r enw ‘*Malwan bach fel fi’ ..yn cloddio am aur*. Mae’r llyfr yn croniclo fy ‘mhererindod’ bersonol i fesur i ba raddau y gallwn weld Duw yng nghanol pethau. Y **‘cloddio’** sy’n dynodi fy nghyfweliadau a’m hymweliadau. Yr **‘aur’** sy’n dynodi’r gweithgareddau ymarferol, egnïol a gobeithiol a welais ar fy nhaith.

**Poster y Falwan Fach**
Yn awr, gwerthfawrogaf y cyfle i barhau ar fy mhererindod drwy gyfrannu i’r cylchgrawn hwn. Fy mwriad yw nodi ffrwyth y cloddio a thynnu sylw at weithgareddau arbennig sy’n debyg i **aur**, yn rheolaidd yn fy ngholofn. Byddaf yr un pryd yn cyflwyno tystysgrif ar ffurf poster lliwgar i gydnabod y gwaith trawiadol hwnnw.
   Estynnaf wahoddiad i chi gyd-gloddio a chyd-rannu â mi os dymunwch.

Tua’r goleuni a hwyl am y tro!



# O’r Pen Yma



gan **Angharad Tomos**

Mae'n digwydd bod yn ddydd pen-blwydd fy nith heddiw. Dwi'n meddwl amdani, ac wedi gwneud yn siŵr fod cerdyn ac anrheg bach yn y post. Dwi'n gobeithio y caiff ddathliad gan wneud rhywbeth gwahanol i'r arfer.
   Gwelais hogyn ifanc dros y Sul, oedd yn un-ar-hugain oed y diwrnod hwnnw. Gofynnais iddo sut oedd yn nodi'r diwrnod, a dywedodd “Dydw i ddim yn un am ffŷs.”
   Bechod. Ydi, mae o'n un swil, ond mae esgus i 'wneud ffŷs' yn beth da ambell waith.
   Falle mod i'n dweud hynny gan mod i'n dod o deulu oedd yn credu mewn dathlu penblwyddi. Byddem yn gwneud peth mawr o'r dydd, ac yn cael parti, cacen a 'mynd am reid' – unrhyw beth i wneud y diwrnod yn wahanol. Run fath ar ddydd Mawrth Ynyd, neu yn ystod gwyliau, neu noson Guto Ffowc (er mae gen i f'amheuon bellach a ddylid dathlu hwnnw). Er mod i dros fy nhrigain, dwi'n dal i edrych ymlaen at fy mhen-blwydd.
   Mae pris postio wedi codi eto fyth, ac mae modd gyrru neges yn ddigidol, m'wn. Ond dydi hynny mo'i gymharu â chael sgrifen gyfarwydd ar amlen, a chofion cynnes. Gorau oll os bydd llythyr ynddo. Pryder llawer ydi beth i'w gael yn anrheg, ond nid cost yr anrheg sy'n cyfrif, ond y ffaith fod rhywun wedi cofio a thrafferthu i godi'r ffôn neu anfon gair yn y post. Mae'n bywydau mor brysur fel yr aiff y misoedd heibio heb inni weld ffrind sydd yn annwyl iawn. Trefnwn ddyddiad i gwrdd am baned neu am dro. Bydd yn sicr o blesio.





Ar wal tŷ fy nain, roedd gwaith croesbwyth hynafol. Saesneg oedd y neges, ond mae yr un mor berthnasol heddiw ag erioed. Arno, pwythwyd y geiriau,

'Come oft to the house of thy friends,
Lest weeds grow on the path.'


Pan fyddwn ni'n edrych yn ôl ar ein bywydau, beth ydi'r pethau ddaw i'r cof gan roi gwên ar ein hwyneb? Onid y 'dyddiau dathlu' rheini? Dwi mor falch inni wneud parti i Nhad i ddathlu ei ben-blwydd yn 90. Roedd cael y teulu ynghyd i rywbeth blaw cnebrwn yn braf, ac mae gennym luniau i gofio'r achlysur a phawb mor hapus. Oedd, roedd o'n chydig o 'ffys' ond roedd o werth o bob tamaid.
   Peidiwn â bod yn swil o ddathlu felly. Mae na hen ddigon o bethau trist yn digwydd yn ddyddiol. Hyd yn oed pan fo hwn a hwn neu hon a hon yn deud nad ydyn nhw eisiau 'ffys', mae'n werth gwneud dipyn bach ohono. Dim ond i wneud i'r diwrnod hwnnw fod yn gofiadwy yng nghanol holl ddyddiau eraill y flwyddyn. Wrth i'r blynyddoedd fynd rhagddynt, mynd yn fwy gwerthfawr wnaiff yr atgofion.
   Dathlwn felly, a llawenhawn. Mae ffrindiau a theulu yn rhodd gan Dduw.

# O'R LLAN

gan y Canon Idris Thomas

### CREADUR PRIN

Yr eitem olaf ar raglen newyddion un noson oedd fod mamal sef ystlum o rywogaeth brin iawn ym Mhrydain, wedi ei ddarganfod yn byw mewn eglwys yng Ngwlad yr Haf. Mae'r addoldy yn agos i Fryniau Blackdown sydd yn ardal bwysig o harddwch naturiol. Yn amlwg roedd darganfod yr ystlum prin hwn yn newyddion cyffrous a'r enw arno yw *Plecotus austriacus*. Darganfuwyd ef yn yr eglwys gan wirfoddolwr o gymdeithas 'Arolwg Cenedlaethol Ystlumod mewn Eglwysi' sef partneriaeth sy'n cynnwys Eglwys Loegr, Cymdeithas Cadwraeth Ystlumod ac Ymddiriedolaeth Cadwraeth yr Eglwysi gyda'r cyfan yn cael ei ariannu gan gronfa treftadaeth y loteri genedlaethol. Mae'r cynllun eisoes wedi archwilio oddeutu saith gant o eglwysi ac mae darganfyddiadau newydd a chyffrous am ystlumod wedi eu gwneud. Yn ogystal cynigiwyd i addoldai gymorth ymarferol pan effeithiwyd arnynt gan ystlumod, yn ogystal ag addysgu pobl amdanynt a mynychu ysgolion i sôn wrth y disgyblion am y rhywogaethau.



### CWMNI YSTLUMOD

Deuthum i gysylltiad ag ystlumod gyntaf pan yn blentyn, mewn ambell ogof yn fy mro chwarelyddol ac yn ddiweddarach mewn rhai adeiladau hynafol amaethyddol ym Mro yr Eifl. Ond yn Eglwys Sant Beuno yng Nghlynnog Fawr am flynyddoedd y daethant hwy a minnau i gysylltiad â'n gilydd yn aml – yn fêts os mynnwch! Byddwn yn picio draw i'r addoldy aml i noson dywyll yn y Gaeaf i nôl rhywbeth ac ati a hynny trwy fynd i mewn i Gapel Beuno yn gyntaf, yna cerdded drwy'r rheinws, y clochdy ac i mewn i'r Eglwys fawr ei hun. Tra yn cerdded i gyfeiriad y brif Allor a'r Festri cawn gwmni un neu ddau ohonynt ar y daith a hynny yn agos iawn ataf, ond byth yn cyffwrdd. Ar y ffordd yn ôl cawn eu cwmni wedyn. Doedd dim ofn yr ystlumod arnaf drwy gydol y blynyddoedd y bûm yn gofalu am Eglwys Clynnog Fawr. Tybed a ydynt, ers rhai blynyddoedd bellach, yn colli fy nghwmni i!

### ANIFEILIAID GLÂN AC AFLAN

Teitl yr unfed bennod ar ddeg o Lyfr Lefiticus yn yr Hen Destament, gyda'i phedwar deg saith o adnodau yw "Anifeiliaid Glân ac Aflan". Yr hyn a geir yn Llyfr Lefiticus yw anerchiadau Duw i Moses, lle dywed wrtho am ailadrodd y cyfan i'r Israeliaid. Un peth y mae'n ei ddweud yw: "Dyma'r adar sydd yn ffiaidd ichwi ac na chewch eu bwyta am eu bod yn ffiaidd." Ac un o'r adar oedd yr ystlum. Ym mhennod 14 yn Llyfr Deuteronomium hefyd enwir yr ystlum ymhlith yr Anifeiliaid Glân ac Aflan. Mae'r enw arno mewn Arabeg yn awgrymu "golwg gwan" ac ystyr yr enw Hebreaidd arno yw "ehedwr y nos." Ceir clasur o ddisgrifiad o'r ystlum gan D.J.Lewis –"Cysgant y dydd, pan fônt effro gwichiant fel llygod ac ehedant o gwmpas eu lloches. Ymborthant ar ffrwythau. Ceir pymtheg math ym Mhalestina yn amrywio o faint llygod bach i faint llygod mawr. Cysga y gaeaf mewn ogofeydd neu hen furddunnod."
Y Prifardd Dic Jones gaiff y gair olaf.

**Yr Ystlum**

Llygoden ar adenydd – oer ei wich
Pan fo'n braf y tywydd,
Hwyr wibia'n rhith dirybudd
Ar isel gwrs o'i wâl gudd.

# IN MEMORIAM

***gan Gareth Blainey***

Ar 1 Mai eleni mae cant a hanner o flynyddoedd ers genedigaeth y Cymro a'r cerddor amryddawn Harry Evans. Yn ogystal â bod yn arweinydd corawl o fri roedd gan Evans lais tenor swynol ac roedd o'n gyfansoddwr, pianydd, organydd a beirniad cerdd uchel ei barch mewn gwyliau cerdd ledled Prydain.*



Cafodd ei eni ym mhentref Dowlais yn agos at ganol tref Merthyr. Yn ddim ond pum mlwydd oed gallai chwarae emyn-donau gan ddefnyddio 'sol-ffa' ar yr organ ac yn 1897 enillodd Gymrodoriaeth Coleg Brenhinol yr Organyddion (FRCO). Ond er cystal organydd oedd o, arwain corau oedd ei dalent fwyaf ac yn Eisteddfod Genedlaethol Lerpwl yn 1900 enillodd ei gôr o Ddowlais y wobr gyntaf yn y gystadleuaeth i gorau meibion. Ar sail y fuddugoliaeth honno, ddwy flynedd yn ddiweddarach derbyniodd wahoddiad i fod yn arweinydd Undeb Corawl Cymreig Lerpwl – y "Liverpool Welsh Choral Union". Ar ôl cyfnod o deithio bob wythnos o Ferthyr i ymarferion yr Undeb Corawl yn y ddinas symudodd Evans gyda'i deulu i fyw yn Lerpwl yn 1906. Flwyddyn yn ddiweddarach perfformiodd yr Undeb Corawl oratorio heriol Bach – 'Y Dioddefaint yn ôl Sant Mathew' – a chafodd pob tocyn ar gyfer y cyngerdd yn Neuadd Ffilarmonig Lerpwl ei werthu. Yn yr un neuadd yn 1910 cafodd Evans y wefr o arwain yr Undeb Corawl mewn perfformiad o'i gerddoriaeth ei hun, y cantata 'Dafydd ap Gwilym'. Roedd o wedi cyfansoddi'r gwaith ar gyfer Eisteddfod Genedlaethol Llangollen yn 1908.

Ar 23 Gorffennaf 1914 bu farw Evans o effeithiau tiwmor yr ymennydd ac yntau ond yn 41 mlwydd oed. Gadawodd wraig a dau fab ifanc a gadawodd argraff ddofn ar y cyfansoddwr byd-enwog Syr Edward Elgar. Dywedodd Elgar 'Roedd gen i feddwl mawr ohono a'i alluoedd a'i safonau uchel'. Roedd gan y cerddor o Rosllannerchrugog Caradog Roberts gymaint o feddwl o Evans nes y cyfansoddodd yr emyn-dôn "In Memoriam" er cof amdano. Dyma dôn rhif 600 yn *Caneuon Ffydd*, y cenir arni'r geiriau 'Arglwydd Iesu, arwain f'enaid at y graig sydd uwch na mi…'. O dan yr enw "In Memoriam" y daeth y dôn yn boblogaidd mewn cymanfaoedd canu ond nid dyna oedd ei henw gwreiddiol. 'Dowlais' oedd enw'r dôn gyhoeddwyd ychydig fisoedd ar ôl marwolaeth Evans, wedi'i henwi ar ôl ei fan geni.

* Defnyddiais bedair prif ffynhonnell o wybodaeth am Harry Evans wrth lunio'r erthygl hon: y cyfeiriad at Evans yn 'Y Bywgraffiadur Cymreig hyd 1940', traethawd Rhidian Griffiths amdano – 'Arweinydd trwy ras Duw' – sydd yng nghyfrol 'Merthyr a Thaf' yng 'Nghyfres y Cymoedd', cynnwys darlith amdano gan yr Athro Huw Rees sy'n Llywydd Undeb Corawl Cymreig Lerpwl, a gwybodaeth ychwanegol dderbyniais mewn nifer o e-byst gan Is-lywydd a chyn-Gadeirydd Undeb Corawl Cymreig Lerpwl, Rhiannon Liddell. Diolch o galon i Rhiannon am ei holl help.

# Wrth fynd heibio

gan **William H. Owen**

NID oedd canmlwyddiant y BBC yng Nghymru am fynd heibio'n ddisylw. Chwarae teg i'r Gorfforaeth serch hynny, ni chawsom ormod o fogail-syllu i gofio am y sŵn cras a glywyd gyntaf ar yr awyr yng Nghaerdydd, ychydig ar ôl i Lundain gymryd y cam.

Mae'n fy nychryn braidd fod y BBC mor ifanc pan gefais i fy ngeni! Eto i ddod yr oedd y datblygiadau mawr fel sefydlu BBC Cymru/Wales a BBC Radio Cymru. Eto, roedd y Gorfforaeth Ddarlledu Brydeinig yn rym yn y tir yn gynnar iawn er mai ar ddydd Sul yr oedd yn cael y sylw pennaf yn ein cartref ni fel sawl un arall yn y cyfnod hwnnw.

Dyma pryd yr oedd *Oedfa'r Bore* yn wrando gorfodol a *Caniadaeth y Cysegr* yn y prynhawn. Roedd y cynhyrchwyr wedi deall mai dyma sut oedd adlewyrchu Cymru fel yr oedd hi ac mai fel hyn oedd denu cynulleidfa a'i phlesio – ar y Sul beth bynnag. Ac ymhen dim yr oedd gweinidogion i'w gweld yn gadael y weinidogaeth i ennill eu bara o flaen a thu ôl y meicroffon. Roedd meibion gweinidogion yn gyfarwydd hefyd – Alun Williams a Geraint Dyfnallt Owen yn eu plith.



O fewn fy nghyfnod i yn y BBC, yn y ganrif o'r blaen (peth arall sy'n peri dychryn i mi), roedd gweinidogion yn amlwg wrth y llyw – rhai Annibynnol mae'n rhaid dweud. Daeth Annibynnwr yn Bennaeth Rhaglenni – y Parch John Stuart Roberts – ac yn y coridorau grym ym Mangor ymhen ychydig wedyn yr oedd y Parch R Alun Evans yn bennaeth, gyda'r Parchedigion Elwyn Jones a Meurwyn Williams yn amlwg yn nhîm cynhyrchu Radio Cymru, y cyfan wedi bod yn weinidogion gyda'r Annibynwyr.

Camwch ymlaen i'r ganrif hon, dim ond y Parch John Roberts, Presbyteriad, oedd ar ôl ar yr ochr gynhyrchu ac er iddo ymddeol mae'n dal i gyflwyno *Bwrw Golwg* ar y Sul, os na fydd Gwenfair Griffith yn gwneud hynny. A chwmni annibynnol sy'n gyfrifol am y rhaglen i Radio Cymru. Yng nghanol y newidiadau diflannodd dylanwad y capel ar y byd darlledu, adlewyrchiad o'r cyfnod ôl-Gristnogol yr ydym yn byw ynddo yn bendifaddau. Mae hyd yn oed *Munud i Feddwl* wedi mynd i gynghrair is darlledu cyn cinio, nid ar oriau brig y bore lle bu gynt. I roi halen ar y briw i grefyddwyr mae Dyneiddwyr yn cael cyfrannu i'r slot erbyn hyn!

Dyna chi hanes can mlynedd o ddarlledu a chrefydd mewn un frawddeg mae'n siŵr. NEWYDD ddathlu canmlwyddiant mae'r Eglwys yng Nghymru hefyd. Rhag sathru ar gyrn cyd-golofnydd a wasanaethodd yr eglwys honno am gyfnod maith, dim ond sylwi yr oeddwn fod Archesgob Cymru wedi mynd i ddŵr poeth gwleidyddol yn ddiweddar. Dod dan lach pobl fel Ysgrifennydd Cymru a wnaeth yr Archesgob Andy John am feiddio dweud ar raglen deledu ei fod o blaid annibyniaeth i Gymru. Dylai gadw ei drwyn yn glir o wleidyddiaeth oedd y gri. David T C Davies, a oedd unrhyw beth mwy gwleidyddol gan mlynedd yn ôl na'r Eglwys yng Nghymru yn datgysylltu ei hun oddi wrth Eglwys Loegr a dod yn eglwys annibynnol? Efallai nad yw rhai o Archesgobion y gorffennol wedi bod mor onest yn datgan eu safbwynt eu hunain ar annibyniaeth i'r wlad ond nid oedd dim o'i le fod yr Archesgob presennol yn datgan ei farn bersonol ar raglen deledu. Nid oedd yno'n gofyn am gefnogaeth ei braidd fel y mae darllediadau gwleidyddol yn chwilio am fôt. Cytuno ag ef neu beidio, roedd ganddo berffaith hawl i'w farn.



# TUDALEN Y PLANT



LLUNIAU: BIBLE FREE IMAGES





## YR ATGYFODIAD

Cafodd Iesu ei groeshoelio a bu farw. Ar ddydd Gwener y digwyddodd hynny. Dyma beth ddigwyddodd wedyn.

"Yn gynnar iawn ar y bore Sul, a hithau'n dal yn dywyll, dyma Mair Magdalen yn mynd at y bedd a darganfod fod y garreg fawr oedd ar geg y bedd wedi'i symud. Felly dyma hi'n rhedeg at Simon Pedr a'r disgybl arall (yr un oedd Iesu'n ei garu), a dweud wrthyn nhw, "Maen nhw wedi cymryd yr Arglwydd allan o'r bedd, a dyn ni ddim yn gwybod ble maen nhw wedi'i roi e!"

Felly dyma Pedr a'r disgybl arall yn mynd allan i fynd at y bedd. Rhedodd y ddau gyda'i gilydd, ond dyma'r disgybl arall yn rhedeg yn gynt na Pedr a chyrraedd yno o'i flaen. Plygodd i edrych i mewn i'r bedd, a gweld y stribedi o liain yn gorwedd yno, ond aeth e ddim i mewn. Yna dyma Simon Pedr yn cyrraedd ar ei ôl ac yn mynd yn syth i mewn i'r bedd. Gwelodd yntau'r stribedi o liain yn gorwedd yno. Gwelodd hefyd y cadach oedd wedi bod am wyneb Iesu, ond roedd hwnnw wedi'i blygu a'i osod o'r neilltu ar wahân i'r stribedi lliain. Yna, yn y diwedd, dyma'r disgybl arall (oedd wedi cyrraedd y bedd gyntaf) yn mynd i mewn hefyd. Pan welodd e'r cwbl, credodd." (Ioan 20 1-8, beibl.net)

Roedd Iesu wedi dweud wrth ei ddisgyblion tra roedd dal gyda nhw ei fod am atgyfodi. Mair Magdalen oedd y cyntaf i'w weld ar ôl yr atgyfodiad, wedyn ei ddisgyblion eraill.

## Chwilair

Iesu
Mair
Pedr
Bedd
Rhedeg
Credodd
Atgyfodi

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| E | TH | R | D | E | P | DD | L | P |
| FF | RH | O | L | LL | O | C | LL | J |
| A | E | D | S | D | B | S | D | I |
| T | D | E | E | M | G | A | M | D |
| G | O | R | W | J | TH | A | W | O |
| Y | C | C | R | E | I | D | B | F |
| F | S | E | D | R | LL | M | I | Y |
| DD | E | R | C | TH | DD | J | E | G |
| D | I | D | E | P | E | O | S | T |
| RH | E | D | E | G | B | E | U | A |

